**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Holl Aelodau'r Cynulliad

26 Ebrill 2017

Annwyl Aelodau'r Cynulliad,

Rwy'n ysgrifennu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y broses o flaenoriaethu cynigion ar gyfer gorsafoedd trenau newydd yng Nghymru ac am y rhestr o orsafoedd, yn ôl blaenoriaeth, i'w datblygu ymhellach.

Mae cynigion ar gyfer gorsafoedd newydd wedi dod o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Cyllido Trafnidiaeth (2015), a oedd hefyd yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu meini prawf asesu (cyfeirnod RI10 yn y Cynllun) at ddiben datblygu rhestr o flaenoriaethau.

Mae methodoleg wedi'i datblygu i asesu cynigion ar gyfer gorsafoedd trenau newydd y gellir ei chymhwyso mewn ffordd gost-effeithiol a chymesur. Mae tri cham i'r fethodoleg asesu. Bydd hyn yn golygu na wneir y gwaith mwyaf costus o lunio amcangyfrifon manwl o gostau gorsaf newydd, a modelu amserlenni, ond yn ôl y blaenoriaethau uchaf.

Mae'r cam cyntaf wedi'i wneud. Mae hyn wedi cynnwys asesiad cychwynnol o'r cynigion ar gyfer 46 o orsafoedd newydd gan ddefnyddio meini prawf Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru, ac ystyriaeth o nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae hon yn broses sy'n barhaus ac yn iterus. O ganlyniad, bydd y gorsafoedd a ganlyn yn cael blaenoriaeth ar gyfer yr asesiad dau gam:

- Y De-ddwyrain: Melin Trelái/Parc Victoria, Llan-wern, Heol Casnewydd/Rover Way a Llaneirwg
- Y De-orllewin: Y Cocyd, Glandŵr, Sanclêr
- Y Gogledd: Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy/Porth y Gogledd, Gogledd Wrecsam, De Wrecsam, Llangefni
- Y Canolbarth: Bow Street

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd yr asesiad dau gam hwn yn edrych yn fwy manwl ar gryfder yr achos ariannol ac economaidd o blaid gorsaf drên newydd, gan gynnwys cyngor gan Network Rail ar ymarferoldeb cyflawni.

Yn gywir,



**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure